

# *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

## **Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni 9ed o Fehefin 2009.**

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Hefina MW Roberts (Cadair), Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Harry W Owen, Sharon W Owen, D Martin Williams, Dafydd Glyn Owen – Talysarn; Dyfed Edwards (Cyng Sir), Ifan Glyn Jones, Megan Thomas, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; Eurig Evans – Nebo; OP Huws – Cyngorydd Sir; Phil Burdett – Cymdeithas Tai Gogledd Cymru

**Gwr Gwadd – Phil Burdett, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru.** Bu'r Cynghorwyr yn holi am y polisi gosod ar gyfer y tai yn Glanaber, Llanllyfni, a chafwyd sicrhad y byddai pwyntiau ychwanegol ar gyfer ceisiadau ymgeiswyr lleol

Cafwyd cais gan bentref Nebo i'r Cyngor brynu bwlbiau daffodil yn dilyn y llythyr a dderbyniwyd mis Mai –penderfynwyd prynu digon o fwlbiau i'w rhannu rhwng pob pentref yn y Dyffryn.

### **Cynllunio:**

#### Ceisiadau ar gyfer sylwadau'r Cyngor

- \* Bryn Glaslyn, Penygroes – estyniad ochr deulawr.
- \* 5 Glan Aber, Llanllyfni – dymchwel estyniad cefn presennol ac adeiladu estyniad cefn unllawr mwy, creu man parcio cefn a gosod lifft o'r man parcio i gefn y ty.
- \*Llain o dir cyfagos Heol Buddyg, Penygroes – newid amod o ganiatad i godi annedd newydd..
- \*3 Ffordd Hyfrydle, Talysarn – codi porth i flaen eiddo, dymchwel estyniad presennol ar gefn yr eiddo a chodi estyniad deulawr newydd.

### **Gohebiaeth;**

\*Derbyniwyd copi o Orchymyn Traffig Arfaethedig Trefn Unffordd – Ffordd Coedmadog a Stryd Penllwyn, Talysarn – Byddwn yn trefnu cyfarfod safle er mwyn trafod ymhellach.

\*Gorchymyn Traffig Arfaethedig Cyfyngiad Cyflymder 30mya a 50 mya – B4418 Talysarn. Roedd y Cyngor yn cymeradwyo'r cynlluniau arfaethedig.

### **Adroddiadau Pentrefi.**

Talysarn: Lon Eglwys, Talysarn – cerrig angen eu codi yn ol ar y wal. Byddwn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd.

\*Bro Silyn – coed Leylandi wedi tyfu yn fawr yn y cefn. Cysylltu a Chyngor Gwynedd – Adran Tai.

\*Derbyniwyd cwynion am griw yn ymgynnull yn Dorothea i yfed.

**Llwybrau a Mynwentydd:** Byddwn yn trefnu gwaith ffensio ym mynwent St Rhedyw er mwyn cadw defaid allan o'r fynwent.